**Jeremy Miles AS/MS**
**Gweinidog y Gymraeg ac Addysg**
**Minister for Education and Welsh Language**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref P-06-1329
Ein cyf/Our ref JMEWL/00465/23

Jack Sargeant AS
Cadeirydd – Y Pwyllgor Deisebau
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1SN
deisebau@senedd.cymru

27 Ebrill 2023

Annwyl Jack,

Diolch am eich llythyr dyddiedig 14 Mawrth yn gofyn imi ymateb i'r ddeiseb ynghylch addysg cyfrwng Cymraeg.

Byddwch yn ymwybodol inni gyflwyno Papur Gwyn gyda chynigion a fydd yn sail i Fil Addysg Gymraeg ar 27 Mawrth. Atodaf ddolen at fy natganiad ysgrifenedig sydd yn manylu ar brif gynigion y papur Gwyn

Mae ein cynigion yn cynnwys tyfu darpariaeth addysg Gymraeg dros amser. Mae'r Papur Gwyn hefyd yn nodi ein gweledigaeth i alluogi pob disgybl yng Nghymru i ddod yn siaradwr Cymraeg hyderus erbyn 2050, ac mae'r materion hyn yn cael eu codi'n uniongyrchol yn y ddeiseb. Mae'r weledigaeth hon yn un uchelgeisiol, ac rydyn ni'n gofyn cwestiynau a fydd yn llywio ein hystyriaethau wrth lunio'r Bil.

Rydyn ni'n ceisio barn rhanddeiliaid a'r cyhoedd am ein cynigion, a byddwn felly yn croesawu clywed sylwadau'r deisebydd. Rwy'n ei annog i ymateb i'r cwestiynau a nodir yn y Papur Gwyn sydd ar gael ar wefan y Llywodraeth.

Bydd yr ymgynghoriad yn para hyd nes 16 Mehefin.

Yn gywir,

**Jeremy Miles AS/MS**
Gweinidog y Gymraeg ac Addysg
Minister for Education and Welsh Language

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Jeremy.Miles@llyw.cymru
Correspondence.Jeremy.Miles@gov.wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.